Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adborth a chwynion

Beth i'w wneud os ydych yn dymuno cynnig sylwadau ar waith Estyn, ei ganmol, neu godi pryder yn ei gylch.

Iechyd ar Waith
CYFRAEDD Y NOD
THE CORPORATE STANDARD
Health at Work

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

SAFON AMGYLCHEDDOL Y DDRAIG WERDD
GREEN DRAGON ENVIRONMENTAL STANDARD

Fersiwn 7 Gwefan (Chwefror 2009)

Rheoli fersiynau

Fersiwn	Awdur	Dyddiad cyhoeddi	Sylwadau
7	Dai Williams	Chwefror 2009	Yn dilyn adolygiad a chael gwared ar gam 4.

Blwch gwybodaeth

I gael rhagor o gyngor, cysylltwch â'r: Rheolwr Adborth a Chwynion

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2009

Dyddiad adolygu arfaethedig: Chwefror 2012

RHOI ADBORTH I NI A GWNEUD CWYNION

Hoffwn glywed eich safbwyntiau am ein gwaith a sut mae'n effeithio arnoch. Bydd eich awgrymiadau, eich canmoliaeth a'ch cwynion o gymorth i ni gydnabod gwaith ansawdd uchel yn ogystal â gwella'r gwasanaethau a ddarperir gennym.

Nod Estyn yw helpu gwella ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae pobl sy'n gweithio i Estyn yn cynnwys ein staff ein hunain, contractwyr arolygu ac ystod o arolygwyr annibynnol ac aseswyr cymheiriaid. Mae pob un ohonynt am roi gwasanaeth da. Os teimlwch y bu eu gwaith yn rhagorol, rhowch wybod i ni a byddwn yn anfon y ganmoliaeth ymlaen atynt.

Weithiau, gall pethau eich poeni chi am waith Estyn. Gallai rhywbeth fynd o'i le. Hwyrach eich bod am gwyno neu am ddweud wrthym am yr hyn sy'n eich poeni ac awgrymu gwelliannau. Gyntaf i gyd byddwch yn siarad am eich pryderon gyda'r bobl sydd ynghlwm yn uniongyrchol, yr hawsaf fydd hi i ddatrys materion. Codwch unrhyw broblemau'n syth yn hytrach nag aros am ddyddiau neu wythnosau.

Mae'r daflen hon yn rhoi gwybod i chi sut gallwch roi adborth i ni a beth i'w wneud os oes gennych bryder neu gŵyn am unrhyw agwedd o'n gwaith. Byddwn yn ymateb yn brydlon ac yn rhoi blaenoriaeth i'r materion a godir gennych. Os na ellir datrys y broblem yn syth, cynhelir ymchwiliad yn gyflym, yn drylwyr ac yn ddiduedd, a byddwch yn cael ymateb llawn. Os byddwch yn parhau i fod yn anfodlon, mae modd adolygu'r mater.

Byddwn yn delio â'r holl gŵynion yn gyfrinachol, ond os byddwch yn cwyno am ymddygiad neu gamau rhywun sy'n gweithio i Estyn, fel rheol bydd angen i ni rannu'ch pryderon â nhw fel rhan o'r ymchwiliad, a gwahodd eu safbwynt hwy o'r hyn a ddigwyddodd.

Mae'r trefniadau hyn yn disodli'r holl drefniadau blaenorol.

Dr Bill Maxwell
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

RHOI ADBORTH I NI

Sut gallwch chi ein helpu ni

Siaradwch â ni neu ysgrifennwch atom os hoffech gynnig sylwadau ar unrhyw agwedd ar ein gwaith. Croesawn eich safbwyntiau am ansawdd ac effaith ein gwaith ac awgrymiadau i'n helpu i wella'r gwasanaethau a gynigiwn. Mae manylion cyswllt ar ddiwedd y daflen hon.

Os ydych yn byw yng Nghymru neu os oes gennych ddiddordeb mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru, rhowch eich barn am waith Estyn a ffyrdd y gallai eich helpu yn fwy.

Os ydych yn rhiant neu'n ddysgwr, dywedwch wrthym am yr hyn y mae gwaith Estyn wedi'i olygu i chi a sut mae wedi effeithio ar eich darparwr addysg neu hyfforddiant

Os ydych yn gweithio mewn addysg neu hyfforddiant, neu os ydych yn llywodraethwr, yn gyflogwr neu fel arall yn gysylltiedig ag addysg neu hyfforddiant, neu'n cael eich effeithio gan waith Estyn, cysylltwch â ni os oes gennych safbwyntiau penodol o ganlyniad i fod mewn cysylltiad â'n gwaith neu o ddarllen ein cyhoeddiadau.

Os ydych yn gweithio yn y llywodraeth neu mewn gwasanaeth cyhoeddus, sefydliad cymunedol neu'n cael gwybodaeth am ein gwaith mewn ffyrdd eraill, rhowch wybod i ni pa ddefnydd rydych yn ei wneud o Estyn a sut gallwn eich helpu ymhellach.

Os ydych yn cynrychioli darparwr addysg neu hyfforddiant neu awdurdod addysg lleol sydd wedi'i arolygu, llenwch a dychwelwch yr holiadur ôl-arolygiad pan fyddwch yn cael eich adroddiad. Defnyddiwn yr adborth hwn am ansawdd yr arolygiad a'r adroddiad i lywio'n gwaith, ac mae angen cael adborth gan bob sefydliad a arolygir. Fodd bynnag, dylai cwynion ddilyn y weithdrefn a nodir isod.

GWNEUD CWYN

Beth i'w wneud os oes gennych bryderon am waith Estyn

Os ydych yn teimlo'n anfodlon â rhyw agwedd ar ein gwaith neu os oes gennych reswm i gwyno, dylech wneud hynny, gan ddilyn yr arweiniad a nodir isod. Bydd hyn o gymorth i ni wneud ein gorau i ymateb i'ch pryder.

Ni fyddwn yn ystyried unrhyw gŵyn am unrhyw agwedd arall ar waith Estyn a godir dros dri mis ar ôl y digwyddiad (neu, yn achos arolygiad, dri mis yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad) oni bai bod amgylchiadau eithriadol.

Bydd yr holl bryderon neu'r cwynion am ein gwaith yn cael blaenoriaeth ac yn:

- cael eu trin yn syth ac yn anffurfiol os yn bosibl neu:
- cynhelir ymchwiliad trylwyr, gan arwain at ymateb llawn;
- cânt eu trin yn gyfrinachol cyn belled â bod modd[1];
- cânt eu rheoli'n gyflym;
- cânt eu trin yn deg; a
- chânt eu defnyddio i lywio'n gwaith.

Rhennir manylion yr achwynydd gyda'r person sy'n destun cwyn, a fydd yn cael cyfle i ymateb ac, os yn briodol, i ddatrys y mater. Fel rheol, bydd hyn yn golygu dweud enw'r person sydd wedi codi'r pryder wrth yr unigolyn oni bai bod rhesymau eithriadol dros beidio â gwneud.

[1] Byddwn yn cyfyngu manylion y gŵyn a'i hymchwiliad i'r sawl sy'n delio â hi ond hwyrach na fydd Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 bob amser yn caniatáu i ni gadw cyfrinachedd.

Beth yw'r weithdrefn? Ceir tri cham i'n gweithdrefn gwyno (gweler isod), gan ddechrau â cheisio datrys y mater yn syth. Cyn gynted ag y gwyddwn am broblem, yr hawsaf yw hi i'w datrys. Mae'r diagram yn dangos camau ein gweithdrefn gwyno. Caiff mwyafrif y cwynion eu datrys yn ystod Camau 1 neu 2, naill ai gan Estyn, ar gyfer arolygiadau ysgol, neu gan arolygwyr cofrestredig neu gontractwyr arolygu.

Codi cwyn ar y cyfle cyntaf

Pan fyddwch yn teimlo bod gennych y sylfaen ar gyfer cwyn, ni ddylech oedi wrth godi eich cwyn. Ymdrinnir â'ch cwyn wedyn yn unol â gweithdrefn gwyno Estyn a amlinellir isod.

Crynodeb o'r weithdrefn gwyno



Prif Arolygydd Ei Mawrhydi sy'n gyffredinol gyfrifol am gŵynion am waith Estyn. Lle cyfeirir cwynion yn uniongyrchol at y Prif Arolygydd, bydd yn eu cyfeirio er mwyn iddynt gael eu trin yn unol â'r weithdrefn hon fel bod pob achwynydd yn cael yr un driniaeth.

Cam 1: Datrys yn anffurfiol

I ddechrau, dylech godi'ch pryder gyda'r person neu'r bobl dan sylw cyn gynted â phosibl. Rhydd hyn y cyfle iddynt ddatrys y mater yn gyflym.

Os yw'r mater yn ymwneud ag adran weinyddol Estyn, ffoniwch y person y buoch yn delio ag ef, ac os na allant helpu, gofynnwch am siarad â rheolwr.

Bydd pwy bynnag y siaradwch â nhw'n gwrando'n astud ar yr hyn a ddywedwch a byddant yn gwneud eu gorau i ymateb i'ch anfodlonrwydd. Yn aml, trafod yw'r ffordd orau o ddatrys pethau.

Os oes problem yn ystod arolygiad, dylech godi'r mater gyda'r arolygydd cofnodol (Arolygydd Ei Mawrhydi neu arolygydd cofrestredig) cyn gynted â phosibl. Os yw hyn yn anodd, gofynnwch i'r enwebai neu berson arall ei godi gyda'r arolygydd cofnodol.

Pryderon am yr arolygiad, canfyddiadau arolygu neu'r adroddiad

Mae'n bwysig bod eich pryder yn hysbys cyn diwedd yr arolygiad neu cyn cyhoeddi'r adroddiad, y mae'n dod yn anos wedi hynny i ymchwilio a chymryd unrhyw gamau a allai fod yn briodol. Ni ddylech boeni y bydd codi eich pryderon yn ystod arolygiad yn effeithio ar farnau'r arolygwyr neu'n arwain at adroddiad llai ffafriol. Nid dyna sut mae arolygwyr yn gweithio ac ni fyddwn yn goddef hynny. Cytunir ar yr holl farnau arolygu pwysig gan y tîm cyfan a rhaid iddynt gael eu cefnogi gan dystiolaeth, y gall unrhyw un ei herio.

Beth i'w wneud os ydych yn dymuno cwyno ynghylch canfyddiadau'r arolygiad neu'r adroddiad

Os arolygwyd eich gwaith a bod gennych bryderon am y barnau arolygu, mae'n hanfodol codi'r rhain cyn cyhoeddi'r adroddiad. Gallwch wneud hyn ar unrhyw adeg, o'r adeg pan fydd arolygwyr yn rhoi adborth i'r adeg pan fydd yr adroddiad drafft yn cael ei dderbyn i'w archwilio. Bydd yr arolygydd cofnodol yn gallu dweud wrthych am y dystiolaeth y seilir canfyddiadau arni. Efallai y byddwch am ddod â thystiolaeth ychwanegol at sylw'r arolygwyr. Os oes gennych bryderon difrifol o hyd am agweddau ar yr adroddiad drafft, dylech eu nodi ar bapur i'r arolygydd cofnodol a sicrhau y caiff y rhain eu trafod rhyngoch chi neu eich bod yn cael ymateb ysgrifenedig llawn. **Rhaid i chi gefnogi'ch cwyn am ganfyddiadau arolygu gyda thystiolaeth**. Gwneir pob ymdrech yn ystod y cyfnod hwn i ddatrys unrhyw anhawster. Gall arolygwyr gywiro gwallau ffeithiol ac os yw'r dystiolaeth yn rymus, bydd yr arolygydd cofnodol yn diwygio'r canfyddiadau yn unol â hynny cyn cyhoeddi'r adroddiad terfynol. Fodd bynnag, ni all arolygwyr newid eu canfyddiadau oherwydd nad yw'r canfyddiadau'n cael eu croesawu, neu oherwydd bod y sefydliad yn addo newid ar ryw adeg yn y dyfodol neu oherwydd newidiadau a wnaed ar ôl arolygiad.

Os nad ydych yn gweld yr adroddiad arolygu nes ar ôl iddo gael ei gyhoeddi, ond bod gennych bryderon yn ei gylch, neu'n ystyried nad yw'r arolygydd cofnodol wedi rhoi ystyriaeth ddyledus i'ch tystiolaeth, dylech ysgrifennu at Estyn cyn gynted â phosibl gan nodi manylion eich pryderon.

Os yw eich pryder yn ymwneud ag arolygiad ysgol wedi'i gontractio, dylech ysgrifennu at y contractwr a fydd yn ymateb i'ch pryderon.

Ni fydd Estyn fel arfer yn oedi cyhoeddi'r adroddiad arolygu tra ymchwilir i gŵyn.

Mae'n fanteisiol dihysbyddu'r cam anffurfiol ble bynnag y bo modd.

Cam 2: Ymchwilio i gŵyn

Os ydych yn parhau i fod yn anfodlon ar ôl ceisio datrys y mater yn anffurfiol dylech gysylltu'n syth ag Estyn, neu'r contractwr os yw eich pryder yn ymwneud ag arolygiad ysgol wedi'i gontractio. Os nad ydych yn siŵr sut i gysylltu â'r contractwr, ffoniwch Rheolwr Adborth a Chwynion Estyn ar 029 2044 6446.

Gallwch fynegi'ch cwyn gan gynnwys cwyn am ganfyddiadau arolygu dros y ffôn, ond byddai o gymorth i ni petaech yn **nodi'ch cwyn ar bapur**. Byddai o gymorth i'ch llythyr gynnwys:

- beth neu bwy rydych yn cwyno yn ei gylch a phryd y digwyddodd, neu ar gyfer cwyn am ganfyddiadau arolygu; rhowch fanylion penodol am unrhyw wrthwynebiad i ganfyddiadau arolygu;
- pa dystiolaeth sydd gennych (gan amgáu'r holl dystiolaeth ategol);
- beth wnaethoch ynghylch eich pryder ar y pryd, a pha ymateb a gawsoch; a
- beth hoffech i ni ei wneud o ganlyniad i'ch cwyn neu'ch gwrthwynebiad i ganfyddiadau arolygu.

Ym mhob achos, bydd Estyn yn gwneud pob ymdrech i ddatrys anawsterau. Fodd bynnag, mae delio â chwynion yn cymryd amser a byddwn yn croesawu eich help wrth sicrhau bod eich cwyn yn gyfiawn.

Os byddwch yn gwneud cwyn ffurfiol, anfonir llythyr atoch ymhen **pum niwrnod gwaith** o dderbyn y gŵyn, sy'n dweud:

- bod eich cwyn wedi cyrraedd;
- pwy fydd yn ymchwilio iddi;
- pryd allwch ddisgwyl cael ymateb; a
- beth fydd yn digwydd os caiff yr ymchwiliad ei oedi.

Nesaf, gofynnir i'r person neu'r bobl y gwnaed cwyn am eu gwaith, neu a oedd yn gyfrifol am yr adroddiad, yn achos cwyn am ganfyddiadau arolygiad, i gynnig ymateb i'ch cwyn. Fel rheol, golyga hyn y byddant yn gweld cynnwys y llythyr a byddwn yn gofyn am eu safbwyntiau. Yna ymchwilir yn drwyadl i'r gŵyn gan:

- reolwr cwynion annibynnol y contractwr, ar gyfer arolygiadau ysgol sy'n cael eu contractio, neu
- reolwr Estyn, ar gyfer arolygiadau eraill a chwynion am staff Estyn.

Fel rheol, cwblheir yr ymchwiliad ac anfonir ymateb llawn atoch **ymhen 25 diwrnod gwaith** o gael manylion llawn eich cwyn. Os nad yw hi'n bosibl ymateb yn yr amser hwn, byddwch yn cael gwybod ac yn cael rheswm am yr oedi. Daw'r ymateb gan Estyn neu'r contractwr arolygu ysgolion, fel sy'n briodol. Bydd y llythyr sy'n nodi canlyniad yr ymchwiliad yn dweud:

- a gafodd eich cwyn ei chadarnhau, ei chadarnhau'n rhannol neu heb ei chadarnhau;
- beth sy'n cael ei wneud, os cafodd y gŵyn ei chadarnhau neu ei chadarnhau'n rhannol, i ddatrys y mater a/neu sicrhau nad yw'n digwydd eto; a
- beth i'w wneud os nad ydych yn teimlo bod yr ymchwiliad yn deg, yn drylwyr ac yn ddiduedd.

Bydd y person/pobl y gwnaed cwyn am eu gwaith hefyd yn cael copi o'r ymateb.

Os cafwyd gwallau yn adroddiad yr arolygiad, bydd rhain yn cael eu cywiro os nad yw'r adroddiad wedi'i gyhoeddi. Os yw wedi'i gyhoeddi, bydd y fersiwn ar wefan Estyn yn cael ei diwygio a bydd adendwm yn cael ei gyhoeddi a chopïau'n cael eu hanfon at y rhai a gafodd yr adroddiad.

Cam 3: Adolygiad mewnol

Os ydych yn anfodlon â'r ffordd yr ymchwiliodd naill ai'r contractwr neu Estyn i'r gŵyn, mae gennych **25 diwrnod gwaith** i ofyn i Estyn adolygu'r ffordd y deliwyd â hi. I wneud hyn, dylech ysgrifennu at Reolwr Adborth a Chwynion Estyn gan ofyn am adolygu'ch cwyn. Dylai'ch llythyr amgáu'r dogfennau perthnasol a nodi:

- yn gryno, beth oedd hanfod eich cwyn a pha ymateb a gawsoch;
- pam rydych yn anfodlon â'r ymchwiliad, gan roi rhesymau clir a thystiolaeth gefnogol; a
- beth hoffech i Estyn wneud o ganlyniad i'r adolygiad.

Ar ôl cael eich cais i adolygu'r gŵyn, bydd Estyn yn ymateb ymhe**n pum niwrnod gwaith** i roi gwybod i chi:

- bod eich cais wedi cyrraedd;
- pwy fydd yn adolygu'r gŵyn;
- pryd y gallwch ddisgwyl cael ymateb; a
- beth fydd yn digwydd os caiff yr adolygiad ei oedi.

Adolygir y gŵyn yn ddiduedd gan uwch reolwr Estyn nad oes ganddo unrhyw gysylltiad â'r maes gwaith neu ymchwiliad cynharach.

Fel rheol, cwblheir yr adolygiad ac anfonir ymateb llawn atoch **ymhen 25 diwrnod gwaith** o gael eich cais. Os nad yw hi'n bosibl ymateb yn yr amser hwn, byddwch yn cael gwybod ac yn cael rheswm dros yr oedi. Ni fydd y swyddog adolygu yn datrys y gŵyn ond mi fydd yn archwilio a gafodd y weithdrefn gwyno ei dilyn ai peidio a bydd y llythyr sy'n nodi canlyniad yr adolygiad yn dweud:

- a oedd yr ymchwiliad cynharach yn drylwyr, yn deg ac yn wrthrychol;
- a yw'r adolygydd yn cadarnhau canfyddiadau'r ymchwiliad neu'n diwygio neu'n gwrthod canlyniadau'r ymchwiliad;
- beth, os unrhyw beth, fydd yn digwydd o ganlyniad i'r adolygiad; a
- beth i'w wneud os ydych yn anfodlon â'r ffordd y cynhelir yr adolygiad.

Erbyn hyn, bydd Estyn wedi gwneud popeth sy'n rhesymol bosibl i ymateb i'ch cwyn. Yn ychwanegol, mae'n agored i chi fynd â'ch cwyn yn uniongyrchol at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Gall yr Ombwdsmon ystyried cwynion eich bod wedi cael eich trin yn annheg, neu wedi cael gwasanaeth gwael yn sgil rhyw fath o fethiant ar ran y corff sy'n ei ddarparu.

Os ydych yn pryderu am unrhyw agwedd ar waith Estyn, cewch gwyno i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn uniongyrchol.

Mae'r Ombwdsmon yn debygol o ddisgwyl i chi fod wedi mynd drwy gam dau gweithdrefn adborth a chwyno Estyn, cyn ymchwilio i'ch cwyn. Nodir manylion cyswllt yr Ombwdsmon isod.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Ffôn: 0845 601 0987 (pris galwad leol)

Ffacs: 01656 641199

E-bost: ask@ombudsman-wales.org.uk

Gwefan: www.ombudsman-wales.org.uk

Cwynion arbennig

Os oes gennych gŵyn am y ffordd y mae Estyn wedi ymateb i gais am wybodaeth dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Ddeddf Diogelu Data, dylech ofyn i Estyn adolygu ei benderfyniad. Dilynwch y camau yng Ngham 3 y weithdrefn gwyno. Cynhelir yr adolygiad gan y tîm priodol yn Estyn, a fydd yn anelu at ymateb ymhen **20 diwrnod gwaith** (yn unol â 'Chanllaw Arfer Dda Rhif 5' a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth). Os ydych yn parhau i fod yn anfodlon, gallwch fynd â'r mater at y Comisiynydd Gwybodaeth.

Mae gweithdrefnau ar wahân, sydd ar gael gan Estyn, yn gymwys i bryderon yn ymwneud â **materion cytundebol** ac yn gymwys i bryderon yn gysylltiedig â **materion personél**.

Os oes gennych bryder yn ymwneud â **mater amddiffyn plant** posibl **neu'n ymwneud ag oedolyn sy'n agored i niwed**, dylech ddilyn weithdrefnau amddiffyn plant Estyn a nodir ar ein gwefan, yn syth.

Cwynion na all Estyn ddelio â nhw

Weithiau, rydym yn cael cwynion am gyrff eraill, fel ysgolion, colegau neu awdurdodau addysg lleol unigol. Gallwn ond ddelio â chwynion o'r fath os ydynt yn gysylltiedig â'r arolygiad o'r sefydliad. Dylid cyfeirio'r holl gŵynion eraill am sefydliad at bennaeth y sefydliad hwnnw. Os ydych yn poeni am agwedd ar ddarpariaeth addysg neu hyfforddiant ac nid ydych yn siwr ynghylch gyda phwy y dylech drafod y peth, cysylltwch â Rheolwr Adborth a Chwynion Estyn a fydd yn fodlon eich cynghori ynghylch beth i'w wneud.

Monitro

Bydd y Rheolwr Adborth a Chwynion yn monitro cynnydd holl ymchwiliadau ac adolygiadau cwyno Estyn, gan gysylltu â'r rheolwr dynodedig yn ôl yr angen. Bydd hyn yn sicrhau nad yw dyddiadau cytûn wedi'u hesgeuluso a bod y bobl dan sylw'n cael gwybod am gynnydd ymchwiliadau ac adolygiadau.

Bydd uwch dîm rheoli Estyn yn ystyried adroddiadau rheolaidd ar adborth a chwynion. Bydd ymatebion i arolygiadau, gan gynnwys cwynion, yn cael eu dadansoddi i nodi materion y gallai fod angen camau cywiro arnynt er mwyn gwella'r system arolygu. Lle mae cwynion yn arwain at ddefnyddio mesurau fel hyfforddiant, monitro neu oruchwylio staff Estyn, bydd y rhain yn cael eu trafod trwy reolwyr llinell yn unol â gweithdrefnau safonol y Gwasanaeth Sifil.

Gallwch ddod o hyd i bolisïau a gweithdrefnau eraill yn ymwneud â swyddogaethau statudol Estyn ar wefan Estyn www.estyn.gov.uk. Mae'r rhain yn cynnwys materion yn ymwneud â gweithredu deddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth. Bydd cyfathrebu a phrosesu'r holl faterion yn ymwneud â chwynion gan Estyn yn cydymffurfio â Datganiad Cyfle Cyfartal Estyn a Chynllun Iaith Gymraeg Estyn.

Manylion cyswllt

Ar gyfer adborth neu gŵynion am arolygiad ysgol wedi'i gontractio, cysylltwch â chontractwr yr arolygiad, y bydd ei fanylion ar gael gan yr ysgol neu gan Estyn (gweler isod). I gynnig adborth neu i gwyno am waith Estyn, cysylltwch â Dai Williams, y Rheolwr Adborth a Chwynion ar 029 2044 6446 neu ysgrifennwch at:

Y Rheolwr Adborth a Chwynion
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

Ffacs 029 2044 6448
E-bost: dai.williams@estyn.gsi.gov.uk